50356.

191

# CAN
AR
# ENEDIGAETH
# CRIST;
SEF,
## Carol Nadolig.

CAERFYRDDIN:
ARGRAPHWYD GAN J. EVANS.
(PRIS CEINIOG.)

1806.

1 CLYWCH lais ac uchel lef, ſŵn tôn telynau'r nef,
I'r Baban byw, Oen Duw, pan anwyd ef,
Yn ſwnio, is law'r ſêr, Nadolig bwyſig bêr,
Gân beraidd ſlâs, Ion addas, foliant Nêr,
O'r llu nefolaidd weddaidd wawr,
Bu'n gwel'd eu Brenin—fyddin fawr,
Yn ſugno bronau'i blentyn, ſef llwchyn gwael y llawr;
Ac wrth wel'd hwnnw, a'i enw Iôr,
A'i air a gylch ymylau'r môr,
Yn gwiſgo'r natur ddynol, fe ganai'r nefol gôr.

2 Gwel'd

2 Gwel'd Brenin mawr y byd—y Gair, gan Fair yn fud,
Y Gwr a'i gwnaeth yn cael magwriaeth cy'd;
Ei fagu i drechu draig ar rinwedd bronau gwraig,
Troi'r llwch yn llaeth er cry' fagwriaeth Craig:
Fe synai'r nefol lesol lu,
Am wisgo'u Brenin yn ei bru,
Mewn corph o bridd daearol, y natur ddynol ddu!
Ar y rhyfeddod hynod hyn,
Mae'r nefol gwm'ni'n sylwi'n synn,
Sef geni, marw a chladdu Duw 'mhlith ei deulu'n dynn!

3 Cyd unwn ninau'n awr yn moliant Iesu mawr,
A'r dyrfa hon, drigolion llymion llawr,
Am dd'od o'r Meichiau mwyn i'r ddalfa caetha' cwyn,
A'i gadarn fraich o dan ein baich i'n dwyn;
Pan daeth Eneiniog doeth y ne'
I'r groth, daeth Sinai gyd âg e',
I wel'd a ddiangai'n Prynwr rhag llwgr yn y lle;
Ond Iesu'r cadarn D'wysog cry',
Wrth ymladd brwydr yn y bru,
Aeth dan ein pechod gwreiddiol, er gwaetha'r diafol du.

4 'Nol medru o'r gelyn mawr gael dyn mewn munud awr,
Sef Adda a'i ryw, 'n elynion Duw—i lawr,
Gan lygru a drygu drych, a gwedd yr enaid gwych,
Gwnai'r neuadd lân yn weithdŷ satan sych;
Ac wedi bwrw delw Duw
O'r enaid sanctaidd, loywedd liw,
Ei hunan daeth y gelyn yn ben ar bob dyn byw;
Gan ddwyn drachefn ei ddodrefn du,
Ac anglod tost i gonglau'r tŷ,
Hên deml Duw ei hunan yn balas satan bu.

5 Ein

5 Ein cwdwm cwlwm câs a lanwai'r ddaear lâs
O lîn i lîn, â phlauau blin eu blâs,
Marwolaeth ar bob dyn a ddaeth trwy gamwedd un,
Llu'r ddaear sy oll wedi llygru eu llun,
Pob rhyw greadur eglur aeth
Ei ddyddiau'i gyd i ddyodde'n gaeth,
O achos dyn a'i bechod, Oh! ddiwrnod chwerw a ddaeth;
O'r anifeiliaid 'r un ni fu,
Na'r rhyw asgellog lwythog lu,
Na physg y môr heb boenau, eu sŵn yn dyodde' sy.

6 Ond Oh! anfeidrol fwy, nâ sŵn eu hochain hwy,
Gwel'd Brenin ne' yn gleisiau dan ei glwy',
Yr unig bwysig Ben, o'r bru heb lygru'i ben,
A ddaeth i'r byd â'i wisg i gyd yn wen,
Y gwr â'i lef, rhagorol un,
A eilw y meirw loyw lun,
Ar bren y groes yn marw ar ddelw anwir ddyn;
Ond gan ei farw, gwyn ei fyd,
Yr enaid dua', gwana'i gyd,
Sy'n ffoi, er maint ei feiau, i'w freichiau yr un fryd.

7 Gan eni o Fari'n fyw, Ddyn sanctaidd ryfedd ryw,
Er maint ein bai, fe ddygir rhai at Dduw,
Mae i'r ofnog euog un, flinderog lwythog lun,
Rhag dwyfol lid, le i ddiengyd, waelaf ddyn,
I'r euog rai dan Sinai sydd,
Amlygu a wnaeth yr arfaeth rydd
Drysorau a dalai'r dyled i'r ddeddf ar doriad dydd,
A hwnnw yw'r anrheg fwyndeg fawr,
Gan Fair a welwyd gyd â'r wawr,
Sy'n cynnwys pob trysorau, mae'n llenwi nef a llawr.

8 Daeth

8 Daeth Perlau'r nef yn awr, mewn blwch o lwch i lawr,
O fewn i hwn ca'dd myrddiwn eiddo mawr,
Pob bendith fwya'i budd, er rhoddi'r caeth yn rhydd,
Danfonai'r Tad dan gaead ſiwn yn gudd;
Ond wrth ei guro a'i ddryllio'n ddrud,
Ei werthfawr berlau ddaeth i'r byd;
I gyfoethogi tlodion, plant dynion meirwon mud,
Ca'dd aml fyddar glaiar glyw,
A dall ei olwg, amlwg yw,
A llawer enaid marw ail-wiſgo delw Duw.

9 A hyn i gyd a ga'dd pechodau eglur radd,
Trwy'r Meichiau o'r nef, ca'dd yn ein lle ei ladd,
Ni thalwyd dyled dyn, ne's hoeliwyd ef ei hun,
A'i werthu a wnawd, i'w ladd yn dlawd ei lun,
Du lid gelynion creulon croch,
Ddyoddefai o'i fodd, ni dd'wedai Och!
Er bod gan waed a gofid, ei gorph i gyd yn goch;
Ond o'i fawr ing a'i gyfyng gur,
Doi moddion meddyg pwyſig pur,
I ddyn, 'nol bwyta pechod, i ſafio ddincod ſur.

10 Ein Prynwr ar y pren wnae'r pyrth o led y pen,
O'r nefoedd fawr i'r llawr fe rwygai'r llen;
Fe dorrodd Tywyſog hedd holl gloiau a barau'r bedd,
Lle'r nefol hâd dd'od adreu i wlad y wledd:
Ond pyrth pwll diafol, 'ffernol ffau,
Trwy ddirfawr gur fe ddarfu'i gau,
Gan gario fry'r agoriad, mae rhwymiad yn parhau,
Ond cael ein Prynwr i ni'n ben,
A'n dwyn yn llwyr tu fewn i'r llen,
Yn wyneb angeu chwerw, ni dd[illegible]wn, Marw, Amen.

DIWEDD.